Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad yr is-grŵp darlledu

**Crynodeb**

- Mae natur fyd-eang darlledu, gan gynnwys newidiadau cyflym mewn technoleg ac arferion gwylio, yn her sylweddol i ddarlledu cyhoeddus, democratiaeth ac amgylchedd cyffredinol y cyfryngau a thechnoleg ddigidol yng Nghymru a thu hwnt. Mae hyn, ynghyd â'r newidiadau rheoleiddiol sydd ar y gorwel ar lefel y DU, yn golygu bod y sector yn wynebu cyfnod o newid sylweddol.

- Mae consensws ar draws y dystiolaeth bod angen newid i helpu Cymru i ddelio â'r heriau hyn. Roedd gwahaniaeth barn ynghylch a ellid rhoi sylw i'r heriau yn y fframwaith deddfwriaethol presennol neu drwy ddatganoli pwerau i'r Senedd, i Lywodraeth Cymru neu i gorff annibynnol.

- Mae sector darlledu a chyfathrebu bywiog gyda threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd cryf yn sylfaenol bwysig i ddemocratiaeth Cymru. Mae'r *diffyg democrataidd* a achosir gan gynnwys Cymreig annigonol, yn effeithio ar ddealltwriaeth dinasyddion o ddatganoli a'r prosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

- Mae angen cryfhau'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd presennol. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu craffu llai manwl o ran eu gweithgarwch yng Nghymru, ar gyfer Cymru ac am Gymru.

- Mae'r grŵp yn croesawu adroddiad y Panel Arbenigol ar yr Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru. Roedd y grŵp yn cytuno ag argymhelliad y Panel bod angen gwneud mwy o waith technegol i ddeall goblygiadau'r gwahanol lwybrau at ddatganoli yn y dyfodol. Byddai'n bwysig i unrhyw awdurdod arfaethedig allu dangos gwerth am arian ac effaith.

- Er mwyn sicrhau strwythur llywodraethu cydlynol ar draws y DU, byddai unrhyw sefydliadau darlledu datganoledig a sefydlwyd yng Nghymru yn cael eu hadlewyrchu'n ddelfrydol drwy greu cyrff tebyg yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon. Nid yw'r achos dros ddatganoli pwerau darlledu i wledydd eraill yn y DU yn rhywbeth mae'r grŵp wedi'i ystyried, ond byddai llawer o'r heriau darlledu yng Nghymru hefyd yn berthnasol yn y gwledydd hynny.

**Dull yr is-grŵp**

Dyma aelodau'r is-grŵp:

*Comisiynwyr:* Kirsty Williams, Albert Owen, Lauren McEvatt, Miguela Gonzalez (cadeirydd)
*Y Panel Arbenigol:* Auriol Miller

Yn unol â'r cylch gwaith y cytunwyd arno gan y Comisiwn ar gyfer yr is-grwpiau, cytunodd y grŵp y dylai edrych yn gyffredinol ar bwerau darlledu a sut maent yn berthnasol i'r opsiynau cyfansoddiadol.

Ystyriodd yr is-grŵp nifer o adroddiadau ar ddyfodol darlledu yng Nghymru, gan gynnwys:

- Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd, *Edrych ar ddatganoli darlledu: Sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?*
- Adroddiad *Broadcasting Regulation in Wales* y Sefydliad Materion Cymreig
- Adroddiad y Panel Arbenigol ar Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru, *Dyfodol newydd ar gyfer darlledu a chyfathrebu yng Nghymru*
- Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar Ddarlledu yng Nghymru

Cyfarfu'r is-grŵp ar 22 a 27 Medi.

Ar 22 Medi, cytunodd y grŵp ar ei ddull gweithredu, a chynhaliwyd cyfarfod â Dylan Moore ac Enrique Uribe Jongbloed, sef awduron adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig.

Ar 27 Mawrth, cyfarfu'r grŵp â Mel Doyle a'r Athro Elin Haf Gruffydd Jones, cyd-gadeiryddion y Panel Arbenigol ar Ddarlledu, i drafod eu hadroddiad.

**Cyd-destun**

Mae'r dirwedd cyfryngau'n newid yn gyflym. Mae'r newid o fformatau analog i ddigidol, a'r cynnydd mewn rhyngrwyd cyflym, wedi gweld dyfodiad cwmnïau ffrydio mawr byd-eang fel Netflix ac Amazon Prime Video sy'n cynnig dewis na welwyd ei debyg o'r blaen i ddefnyddwyr ac mae hyn yn arwain at ostyngiad yn nifer y bobl sy'n gwylio sianeli teledu llinol traddodiadol. Er bod hyn wedi creu cyfleoedd cadarnhaol i'r sector a defnyddwyr, mae hefyd wedi creu heriau sylweddol, yn enwedig i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n gweithredu o fewn fframweithiau rheoleiddio cenedlaethol.

Mae gan ddarlledu rôl unigryw o ran diogelu'r iaith Gymraeg, a diwylliant a hunaniaeth Cymru. Mae darlledu yng Nghymru yn dibynnu'n drwm ar Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus. Felly, mae Cymru'n arbennig o agored i'r newidiadau hyn.

Nid yw'r cynnydd mewn cynnwys a dewis o reidrwydd wedi arwain at dwf mewn cynnwys o Gymru. Dywedir yn aml fod y ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes

yng Nghymru'n annigonol. Hefyd yn aml, mae diffyg gweledEdd/clywadwyedd o safbwyntiau Cymru mewn materion yn y DU. Mae gan hyn oblygiadau i fywiogrwydd a chadernid democratiaeth yng Nghymru.

**Pŵer**

Mae 'darlledu a chyfryngau eraill' yn cael eu diffinio fel mater a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017, drwy fater a gedwir yn ôl 158: darlledu a chyfryngau eraill. San Steffan sy'n gosod y fframwaith rheoleiddio darlledu, a'r deddfwriaethau mwyaf perthnasol yw Deddf Darlledu 1996 a Deddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r diwydiant darlledu yng Nghymru yn cael ei reoleiddio gan y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom). Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dros nifer o feysydd polisi sy'n croestorri â darlledu (y Gymraeg, sgiliau, chwaraeon ac ati).

Fel yng Nghymru, mae darlledu yn fater a gedwir yn ôl yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, fel y nodir yn Atodlen 5 Deddf yr Alban (1998) ac Atodlen 3 Deddf Gogledd Iwerddon (1998).

Yng Ngogledd Iwerddon, cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus gan y cyn Bwyllgor Diwylliant, y Celfyddydau a Hamdden yn 2008. Daeth i'r casgliad y gallai cynulleidfaoedd Gogledd Iwerddon gael eu hadlewyrchu'n well gyda strwythurau llywodraethu a rheoleiddio newydd; y gallai Cynulliad Gogledd Iwerddon a'i bwyllgorau graffu'n well ar y BBC; ac y gallai Gogledd Iwerddon gael ei chynrychioli'n llawnach mewn rhaglenni ar draws y rhwydwaith. Yn yr un flwyddyn, cwblhaodd Comisiwn Darlledu'r Alban ei adroddiad gan wneud argymhellion tebyg i'r rhai a wnaed yng Nghymru dros y degawd diwethaf, *Mae'r Alban, heb os, wedi elwa o fod yn rhan o ecoleg ddarlledu gyffredinol y DU, sydd wedi creu traddodiad cyfoethog o werthoedd cynhyrchu uchel a chynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r Alban bob amser wedi cael ei gwthio i'r cyrion yn y fframwaith hwn sy'n llwyddiannus yn gyffredinol yn y DU ac mae angen i hynny newid.* Bydd Llywodraeth yr Alban yn cyhoeddi papur ar ddarlledu fel rhan o'i phrosbectws ar gyfer yr Alban annibynnol.

Mae gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd rai rolau goruchwylio a gwneud penodiadau cyhoeddus cyfyngedig ym maes darlledu: megis penodi aelodau o fyrddau Ofcom a'r BBC a chraffu ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus drwy drefniadau sydd wedi'u cyfundrefnu mewn memoranda dealltwriaeth penodol.

Mae gan y Senedd Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Ofcom sy'n ymrwymo'r rheoleiddiwr i ymgynghori â phwyllgorau perthnasol y Senedd ar ei Gynllun Blynyddol, gan ymddangos gerbron pwyllgorau'r Senedd, a chyflwyno ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon i'r Senedd. Mae gan y Senedd Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth hefyd gyda'r BBC sy'n ymrwymo'r darlledwr i gyflwyno ei adroddiadau a'i gyfrifon blynyddol i'r Senedd, ac ymddangos gerbron pwyllgorau'r Senedd.

Mae gan Lywodraeth Cymru Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Ofcom[1] sy'n rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cymru benodi aelodau o Gymru ar gyfer bwrdd Ofcom. Mae'n ymrwymo'r rheoleiddiwr i gwrdd â Gweinidogion Cymru ac ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar ei Gynllun Blynyddol. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae cytundeb tebyg ar waith ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae gan Lywodraeth Cymru Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth hefyd gyda'r BBC a Llywodraeth y DU sy'n ymrwymo Llywodraeth y DU i ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar adolygiad Siarter y BBC, ac i Lywodraeth Cymru osod y siarter drafft a'r cytundeb fframwaith gerbron y Senedd[2]. O ganlyniad i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 a phroses Adnewyddu Siarter ddiwethaf y BBC, sefydlwyd Bwrdd BBC newydd, gyda chynrychiolwyr o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Cymru yn bresennol.

Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei phapur gwyn, *Up Next*: *the government's vision for the broadcasting sector.* Mae'n cynnwys ymrwymiadau i:

- Cynnal adolygiad o fodel cyllido ffi'r drwydded y BBC cyn cyfnod nesaf y Siarter (mae'r cyfnod presennol yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2027)
- Ymgynghori ar wreiddio pa mor bwysig yw cynnwys unigryw o Brydain yn y system gwota bresennol (*Byddwn yn glir bod hyn yn cynnwys rhaglenni sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon mewn gwahanol rannau o'r DU*).
- Diweddaru cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C i gynnwys gwasanaethau digidol ac ar-lein a chael gwared â'r cyfyngiadau darlledu daearyddol presennol.

Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon eu bod yn cyhoeddi Bil Cyfryngau drafft ar 29 Mawrth 2023 i gyflawni'r ymrwymiadau a amlinellir yn y Papur Gwyn.

### Safbwyntiau pleidiau gwleidyddol

Roedd y pleidiau gwleidyddol yng Nghymru wedi nodi eu safbwyntiau ar ddarlledu datganoledig cyn etholiad 2021 y Senedd.

Roedd Plaid Cymru yn addo y byddai'n *pwyso am ddatganoli darlledu a thelegyfathrebiadau'n llawn i Gymru, gan gynnwys pwerau rheoleiddio, trethu ac ariannol... dros yr holl ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â rheoleiddio radio masnachol a theledu lleol.*

Roedd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi addo *parhau i ymgyrchu dros ddatganoli darlledu* gyda'u blaenoriaethau penodol yn cynnwys S4C a'r drwydded Channel 3 nesaf i Gymru.

Dywedodd y Ceidwadwyr Cymreig nad oeddent yn credu y byddai datganoli darlledu yn gwella atebolrwydd sefydliadau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus nac, yn wir, yn

[1] Microsoft Word - Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cymru (4) (1).docx (publishing.service.gov.uk)
[2] Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Diwygiedig.pdf (senedd.cymru)

datrys problemau pwysig eraill sy'n wynebu'r sector, ac yn hytrach yn awgrymu ymgysylltu â Llywodraeth y DU i edrych ar *lwybrau gwahanol* ar gyfer gwella.

Awgrymodd Llafur Cymru *archwiliad manwl o'r math o dirwedd darlledu sydd ei hangen arnom yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Tirwedd sy'n cadw'r agweddau pwysicaf ar yr hyn y gall bod yn rhan o dirwedd ehangach y DU ei gynnig – fel drwy'r BBC – ond sy'n wahanol i'r dirwedd bresennol, ac yn cynnig mwy o atebolrwydd i Gymru fel ffordd o'n helpu ni i gael y sylw cenedlaethol a lleol mwy cadarn sydd ei angen arnom, yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yng nghyd-destun amgylchedd sy'n newid mor gyflym.*

Nododd y Cytundeb Cydweithredu rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru bod *Llywodraeth Geidwadol y DU yn parhau i fygwth ac ymosod ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid datganoli pwerau darlledu a chyfathrebu i'r Senedd.*[3]

**Tystiolaeth**

Adroddiad y Panel Arbenigol ar yr Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru

Yn y Cytundeb Cydweithio (2021) rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, roedd ymrwymiad i: *Ymchwilio i greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru, i fynd i'r afael â'n pryderon ynghylch elfennau bregus yn y cyfryngau ar hyn o bryd a'r ymosodiadau ar eu hannibyniaeth. Byddai'r corff hwn yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig yn y maes digidol ac yn annog lluosogrwydd yn y cyfryngau.*

Sefydlwyd Panel Arbenigol ar Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru ym mis Mehefin 2022 i ddarparu argymhellion ac opsiynau i helpu i gryfhau cyfryngau Cymru a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau ar gyfer fframwaith rheoleiddio effeithiol ac addas i'r diben i Gymru.

Cafodd y panel ei gyd-gadeirio gan y darlledwr o Gymru Mel Doel, a'r Athro Elin Haf Gruffydd Jones. Cynhaliodd y Panel ei gyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf 2022. Cyhoeddwyd ei adroddiad terfynol ar 3 Awst 2023. Roedd wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid ac wedi comisiynu ymchwil wedi'i thargedu.

**Canfyddiadau**

Roedd yr adroddiad yn cydnabod prydlondeb gwaith y Panel yng nghyd-destun y newidiadau radical sydd wedi digwydd ac sy'n parhau i ddigwydd yn y dirwedd ddarlledu a digidol. Nododd fod angen gweithredu i ddiogelu darlledu cyhoeddus a democratiaeth, a gwella'r amgylchedd cyfryngau cyffredinol yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at fylchau mewn data a gwybodaeth am ddarpariaeth a'r defnydd o gyfryngau yng Nghymru, dryswch ynghylch pwerau datganoledig a

[3] Gweler Atodiad 2 adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddarlledu.

phwerau a gedwir yn ôl fel y maent yn berthnasol i ddarlledu a chyfathrebu, a llinellau cynyddol aneglur rhwng darlledu, cyfathrebu a'r cyfryngau.

Roedd y Panel o'r farn bod y trefniadau craffu presennol yn llai manwl ac y dylid cael atebolrwydd mwy uniongyrchol i bobl Cymru. Daeth y Panel i'r casgliad bod angen cryfhau polisi, rheoleiddio ac atebolrwydd. Ei brif argymhelliad yw y dylid sefydlu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol (yr Awdurdod Cysgodol) i wella tryloywder a gwelededd ar lefel Cymru, cryfhau trefniadau llywodraethu a chefnogi mwy o atebolrwydd i'r Senedd.

Roedd yr adroddiad yn argymell dull gweithredu fesul cam ar gyfer sefydlu Awdurdod Cysgodol, gan ddechrau gyda ffurfio Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol o fis Medi 2023 ymlaen.

**Gweithgor Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol (Medi 2023 i Awst 2024)**

Byddai'r Gweithgor yn gyfrifol am gyflawni argymhellion y Panel a bwrw ymlaen â'r gwaith o sefydlu Awdurdod Cysgodol erbyn mis Medi 2024.

**Awdurdod Cysgodol (Medi 2024 i Awst 2025)**

Mae'r adroddiad yn amlinellu nifer o feysydd gwaith allweddol ar gyfer yr Awdurdod Cysgodol, sy'n ymwneud â gwybodaeth, ymgysylltu, seilwaith, cyngor, atebolrwydd a'r Gymraeg.

**Yr Awdurdod Cysgodol o fis Medi 2025 ymlaen**

Mae'r adroddiad yn awgrymu y bydd cytuno ar waith yr Awdurdod Cysgodol o 2025 ymlaen yn dibynnu ar wybodaeth a chanfyddiadau gwaith yr Awdurdod Cysgodol yn 2024/2025 ac unrhyw symudiad at ddatganoli rhagor o bwerau darlledu a chyfathrebu i Gymru.

**Datganoli pwerau darlledu a chyfathrebu**

Roedd y Panel yn argymell bod modd i Awdurdod Cysgodol wneud cynnydd go iawn heb ddatganoli rhagor o bwerau i'r Senedd. Yn ystod oes yr Awdurdod Cysgodol hyd at 2025, roedd yn argymell bod y cyrff presennol sy'n cynnal y prif swyddogaethau polisi, atebolrwydd a rheoleiddio yn parhau i fod yn gyfrifol amdanynt. Mae'r adroddiad yn nodi amrywiaeth o lwybrau y gallai Llywodraeth Cymru eu dilyn, sy'n ymwneud â datganoli rheoleiddio a/neu atebolrwydd dros ddarlledu a chyfathrebu i Gymru, gan dynnu sylw at y manteision a'r heriau posibl ym mhob achos. Mae'r llwybrau hyn yn cynnwys gweithredu o fewn pwerau deddfwriaethol presennol y Senedd, negodi Siarter newydd y BBC, gyda Siarter ar wahân ar gyfer pob gwlad, datganoli'r gwaith o oruchwylio a rheoleiddio S4C i'r

Senedd, datganoli atebolrwydd dros ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus Cymru i’r Senedd, a datganoli’r gwaith o oruchwylio a rheoleiddio darlledu gwasanaeth cyhoeddus i’r Senedd. Dywedodd y Panel y dylai’r Awdurdod Cysgodol edrych ar y llwybrau hyn at ddatganoli yn dechnegol ac yn fanwl, er mwyn cynghori Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer y dyfodol.

Daeth i’r casgliad y gellir gwneud llawer iawn o gynnydd heb ddatganoli pellach, ac roedd yn argymell bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau gweithredu o fewn cwmpas ei phwerau deddfwriaethol presennol i ddechrau. Os nad yw cynnydd pendant yn bosibl wrth i’r gwaith fynd rhagddo, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ceisio rhagor o ddatganoli. Ni ddylai risgiau posibl yn sgil datganoli darlledu a chyfathrebiadau fod yn rhwystr rhag meddwl mewn ffordd arloesol a soffistigedig ynghylch sut y gellid ei wneud, a’r manteision y gallai eu cynnig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau, Chwaraeon a Diwylliant ddatganiad ysgrifenedig ar 3 Awst a oedd yn croesawu’r adroddiad. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried argymhellion yr adroddiad ac mae disgwyl iddi ymateb yn ffurfiol erbyn maes o law. Mae adroddiadau yn y cyfryngau wedi awgrymu na fydd Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad i sefydlu awdurdod oherwydd y pwysau cyllidebol sylweddol y mae’n eu hwynebu. Mewn ymateb i hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud nad oes unrhyw benderfyniad wedi’i wneud[4] .

Adroddiad Rheoliadau Darlledu yng Nghymru y Sefydliad Materion Cymreig

Roedd Adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig a Media Cymru “Darllediadau yng Nghymru” yn asesu sefyllfa bresennol rheoleiddio ac atebolrwydd darlledwyr yng Nghymru, ac roedd yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael o ran modelau rheoleiddio yn y dyfodol.

Roedd *Rhan 1* yn mapio'r adnoddau presennol sydd ar gael i reoleiddwyr a llunwyr polisïau yng Nghymru. Roedd tair haen i’r Map: 1. Pwy sy’n rheoleiddio darlledu yng Nghymru, a sut; 2. Beth y gellir ei reoleiddio er mwyn effeithio ar ddarlledu, a sut; 3. Pa ddylanwad sydd gan Gymru eisoes ar y fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol presennol hyn.

Roedd *Rhan 2* yn edrych ar bedair astudiaeth achos o wledydd â fframweithiau darlledu datganoledig. Gydag enghreifftiau o Sbaen, yr Almaen, Gwlad Belg a'r Iseldiroedd, roedd yr adroddiad yn nodi amrywiol fframweithiau ar gyfer llywio’r ffordd mae darlledu’n cael ei lywodraethu ac roedd yn tynnu sylw at fanteision ac anfanteision pob dull.

Yn Sbaen, roedd rhai pwerau darlledu wedi’u datganoli i Gatalwnia, Galicia a Gwlad y Basg, ac roedd tystiolaeth yn dangos y gallai rheoleiddwyr rhanbarthol gydfodoli

[4] New Welsh media body plan not happening, BBC is told - BBC News

gydag un rheoleiddiwr cenedlaethol. Fodd bynnag, dangosodd Sbaen hefyd y perygl o blaidgarwch mewn darlledu rhanbarthol.

Yn yr Almaen, cafodd pwerau dros ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus eu ‘cyfuno’ mewn cyrff annibynnol, a dyma mae’r Sefydliad Materion Cymraeg yn ei argymell fel ffordd bosibl ymlaen i Gymru.

Roedd Gwlad Belg a’r Iseldiroedd yn darparu rhybuddion, gyda phroblemau’n cynnwys rhaniadau rhwng cymunedau iaith, marchnadoedd cyfryngau cwbl ar wahân a darnio yn y boblogaeth, yn ogystal â llai o gyllid ar gyfer darlledwyr rhanbarthol.

**Argymhellion yr Adroddiad**

Roedd adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru greu Sefydliad Cyfryngau yng Nghymru cyn diwedd tymor presennol y Senedd ym mis Mai 2026. Dylai fod yn annibynnol ar lywodraeth a’i gylch gwaith fyddai gwasanaethu buddiannau dinasyddion a chynulleidfaoedd yng Nghymru. Mae hwn yn gylch gwaith tebyg i’r Awdurdod Cysgodol a awgrymwyd gan y Panel Arbenigol ar Ddarlledu. Fodd bynnag, mae adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig yn mynd cam ymhellach ac yn argymell y dylai llywodraeth y DU drosglwyddo rhai swyddogaethau sy’n ymwneud â darlledu o’r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (pob penodiad i fyrddau sy’n llywodraethu darlledwyr, cyfrifoldeb polisi dros ddarlledu masnachol, a phenderfyniadau sy’n ymwneud â Siarter y BBC, Cytundeb y BBC a Ffi’r Drwydded Darlledu) i Lywodraeth Cymru neu Gomisiwn annibynnol. Dylai penodiadau i’r Comisiwn gael eu gwneud drwy’r broses penodiadau cyhoeddus gan weinidogion perthnasol ym mhob un o bedair gwlad y Deyrnas Unedig, a dylai cyfansoddiad y Comisiwn fod yr un mor gynrychioladol o’r pedair gwlad.

Dewis y Sefydliad Materion Cymreig oedd trosglwyddo swyddogaethau i gorff annibynnol yn hytrach na Llywodraeth Cymru *i osgoi brwydr barhaus dros bwerau rhwng Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig, a chynnal uniondeb y cyfryngau ac iechyd ein democratiaeth.*

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Edrych ar ddatganoli darlledu: Sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?’

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu’r Pumed Senedd adroddiad o’r enw ‘Edrych ar ddatganoli darlledu: Sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?’

Roedd yr adroddiad yn cydnabod natur darlledu sy’n globaleiddio’n gyflym a nododd fod y cyflenwad o gynnwys cyfryngau ar gyfer Cymru’n annigonol (gweler y blwch isod[5]). Roedd yn tynnu sylw at anfodlonrwydd cyffredinol â’r cyflenwad o gynnwys

[5] Blwch o adroddiad y Senedd t 14 Edrych ar ddatganoli darlledu: sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?(senedd.cymru)

cyfryngau ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru ac roedd yn nodi mai cynnwys newyddion a materion cyfoes oedd y diffyg mwyaf. Roedd yn gofyn i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac OFCOM nodi sut y gellid gwella hyn. Roedd hefyd yn galw am sefydlu comisiwn cyllido annibynnol gyda chynrychiolaeth benodol o Gymru i sicrhau mwy o rôl i Gymru mewn penderfyniadau cyllido (fel pennu ffi'r drwydded). Roedd hefyd yn galw am fwy o rôl i'r Senedd o ran ariannu a rheoleiddio'r ddarpariaeth cyfryngau yng Nghymru, ac am ddatganoli cyfrifoldeb dros S4C a materion eraill yn ymwneud â'r Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus i Gymru.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod angen pwerau ar Gymru yn y maes hwn. Fodd bynnag, roedd safbwyntiau ar raddau'r datganoli pellach hwnnw'n amrywio gyda rhai'n ffafrio datganoli pwerau darlledu'n llawn i'r Senedd, ac eraill yn ffafrio pwerau newydd mwy cyfyngedig mewn meysydd penodol

Mae Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd wedi tynnu sylw at y diffyg cynnwys sawl gwaith:

- Yn 2108, galwodd y Pwyllgor ddiflaniad newyddiaduraeth newyddion o Gymru yn *broblem polisi cyhoeddus dwys, y mae angen i lunwyr polisïau ar bob lefel, yn enwedig Llywodraeth Cymru, roi sylw iddi fel mater blaenoriaeth*.
- Yn 2017, dywedodd y Pwyllgor y dylai'r BBC *ddarparu £30 miliwn yn ychwanegol ar gyfer drama a darllediadau Saesneg am Gymru*. Ers hynny, mae'r BBC wedi ymrwymo i fuddsoddi £8.5 miliwn yn ychwanegol y flwyddyn mewn rhaglenni Saesneg ar gyfer Cymru.
- Yn 2017, dywedodd y Pwyllgor fod toriadau mewn cyllid ar gyfer y darlledwr Cymraeg S4C *wedi bod yn ddifrifol ac yn anghymesur* ac maent yn cael *effaith barhaol a difrifol ar ei gallu i ddarparu ei gwasanaeth*
- Yn 2017, dywedodd y Pwyllgor *nad yw'r dull laissez faire a ddisgrifiwyd gan ITV Cymru Wales wedi arwain at leisiau Cymru'n cael eu cynrychioli'n ddigonol ar rwydwaith ITV. Mae dull y sianel o gomisiynu wedi methu â dal cyfoeth cymunedau Cymru ac mae nifer o agweddau ar fywyd Cymru nad ydynt yn cael eu portreadu ar rwydwaith ITV nac ar ITV Cymru Wales.*
- Yn 2018, roedd yn galw ar Lywodraeth y DU i ystyried cyflwyno gofyniad rheoleiddio i orsafoedd radio masnachol yng Nghymru adrodd ar newyddion sy'n benodol i Gymru, yn ogystal â newyddion lleol ac ar gyfer y DU, fel rhan o'i diwygiad o radio masnachol. Yn yr un adroddiad, roedd yn galw ar y BBC i edrych ar alluogi gwasanaethau radio rhwydwaith yng Nghymru i optio allan. Nid yw'r un o'r argymhellion hyn wedi cael eu gweithredu.
- Yn 2019, galwodd ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth ffilm a fyddai, ymysg pethau eraill, yn *cefnogi'r Gymraeg a chynyrchiadau Cymreig unigryw eraill gyda'r bwriad o gynyddu amlygrwydd y Gymraeg a'i diwylliant ar y llwyfan rhyngwladol.*

.

[Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig i Ddarlledu yng Nghymru]

Cyhoeddwyd ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig i ddarlledu yng Nghymru ar 27 Hydref 2023. Roedd yn galw am sicrhau tegwch rhwng Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus a chwmnïau ffrydio, gan bwysleisio’r angen i ddiogelu’r Gymraeg ar draws yr holl gyfryngau yn y dyfodol. Roedd yn rhybuddio y byddai diffyg diwygio gan Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn arwain at ddiwylliant Cymru a’r Gymraeg yn diflannu oddi ar dechnoleg ddigidol.

Roedd yn tynnu sylw at y ffaith bod gwylwyr gwasanaethau ar-alw yn cael trafferth dod o hyd i gynnwys sy’n berthnasol i Gymru neu gynnwys Cymraeg drwy hidlyddion a mecanweithiau chwilio presennol. Roedd y Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno’r Bil Cyfryngau i’r Senedd cyn gynted â phosibl.  Mae’r bil yn ceisio gwneud rheolau amlygrwydd hen ffasiwn yn deg rhwng Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus a chwmnïau ffrydio.

Nododd y Pwyllgor fod maint y buddsoddiad sydd ei angen i gynnal darllediadau Cymraeg yn yr oes ddigidol yn frawychus. Galwodd am bartneriaeth hirdymor rhwng S4C a BBC Cymru Wales. Roedd cyllideb S4C wedi gostwng 36% ers 2010, sydd wedi golygu ei bod ar ei hôl hi o ran datblygiad digidol. Roedd y Pwyllgor yn annog Llywodraeth y DU i ddiogelu darllediadau Cymraeg a bod yn glir ynghylch cyllid ar gyfer S4C yn y dyfodol.

Roedd nifer o ddigwyddiadau chwaraeon yn cael eu rhoi y tu ôl i’r wal dalu gan gwmnïau ffrydio. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod tensiwn rhwng chwaraeon yn cael digon o refeniw a sicrhau mynediad eang i wylwyr, a pharhau i ddenu gwylwyr at raglenni chwaraeon. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn argymell y dylai’r Digwyddiadau Chwaraeon Rhestredig (am ddim), flaenoriaethu gemau o Gymru yn well. Roedd yn galw ar Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, a darlledwyr, i drafod sut y gellid diwygio’r drefn digwyddiadau rhestredig i gefnogi rhestr benodol o ddigwyddiadau yng Nghymru. Argymhellodd hefyd y dylid diwygio cylch gwaith Ofcom i fynnu bod gan rai digwyddiadau sylwebaeth Gymraeg.

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y duedd bod gorsafoedd radio lleol yn cael eu caffael gan gorfforaethau mwy, gan arwain at golli hunaniaeth a darpariaeth leol. Er mwyn darparu ar gyfer cymunedau lleol, mae cenhedlaeth newydd o orsafoedd radio cymunedol wedi dod i’r amlwg. Er bod rhai wedi cael cynnig trwyddedau DAB, roedd Cymru y tu ôl i weddill y DU wrth newid i radio digidol oherwydd problemau cysylltedd mewn llawer o ardaloedd. Roedd y Pwyllgor yn galw ar Ofcom i ailddechrau cynnig trwyddedau FM.

Nododd yr adroddiad nad oedd y rheolau presennol ar brentisiaethau’n adlewyrchu sector diwydiannau creadigol Cymru. Roedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno’r system prentisiaethau a rennir i fynd i’r afael â hyn.

**Casgliadau**

- Mae'r trefniadau atebolrwydd/craffu presennol ar gyfer Ofcom a'r BBC yng Nghymru wedi cael eu disgrifio gan rai sylwebyddion fel rhai lled-ffederal[6]. Mae'r trefniant hwn yn gryfach na threfniadau rheoleiddwyr eraill (ee OFWAT) ac mae'n darparu rhywfaint o atebolrwydd/craffu i Gymru o fewn y fframwaith rheoleiddio. Fodd bynnag, clywodd y grŵp fod atebolrwydd/craffu yn aml yn ysgafn.

- Felly, mae achos cryf dros gryfhau llais a dylanwad Cymru yn y dirwedd gymhleth hon sy'n newid yn gyflym. Byddai llais cryfach i Gymru yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau diwylliannol a democrataidd sylweddol a achosir gan newidiadau mewn technoleg, arferion gwylio a thwf platfformau digidol byd-eang nad ydynt yn cael eu rheoleiddio. Hefyd, yn aml mae diffyg gwelededd/clywadwyedd o safbwyntiau Cymru mewn materion yn y DU. Mae angen i'r cyfryngau ehangach adlewyrchu sylwebaeth Gymreig a gynhyrchir yng Nghymru. Y nod yw cryfhau allbwn Cymreig, creu cynnwys, a bod y cyhoedd yn ymgysylltu â sefydliadau democrataidd yng Nghymru i ddiogelu'r Gymraeg, ei hunaniaeth a'i diwylliant, a sicrhau bod anghenion y dinasyddion yn cael eu diwallu.

- Dylai Cymru gael mwy o ddylanwad mewn penderfyniadau polisi, llywodraethu a mecanweithiau atebolrwydd yn y maes hwn. Mae'r trefniadau atebolrwydd presennol yn golygu nad oes digon o gadernid na dyfnder yn y craffu ar weithgarwch yng Nghymru nac am Gymru. Mae angen rhoi sylw i hyn fel blaenoriaeth.

- Mae nifer o ffyrdd o gyflawni hyn, er enghraifft, rhagor o gydweithio rhwng pwyllgorau yn San Steffan a'r Senedd ar wrandawiadau cadarnhau; cydweithio agosach rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar benderfyniadau allweddol mewn perthynas â pholisi, cyllido a rheoleiddio, a/neu gynnwys cynrychiolaeth o Gymru ar gomisiwn cyllido annibynnol.

- Mae adroddiad y Panel Arbenigol yn nodi nifer o lwybrau at ddatganoli pellach a allai gryfhau dylanwad Cymru. Mae'r is-grŵp yn cytuno â'r Panel bod angen gwneud rhagor o waith technegol i ddeall y trefniadau rheoleiddio cymhleth a goblygiadau'r gwahanol lwybrau i ddatganoli pellach. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad cost/budd o'r gwelliannau gwirioneddol a ragwelir ar gyfer

[6] Adroddiad y senedd t 44 Edrych ar ddatganoli darlledu: sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?(senedd.cymru)

darlledu yng Nghymru o'i gymharu â'r gost o ran amser, cymhlethdod a chyllid sydd ei angen i'w cyflawni. Ni ddylai'r gwaith hwn fod yn rhwystr i gynnydd o ran cryfhau llais Cymru drwy gydweithredu rhynglywodraethol a rhyngseneddol cryfach, fel y nodir uchod.

- Gellid cymhwyso'r llwybrau hyn a nodwyd yn yr adroddiad i nifer o opsiynau cyfansoddiadol y Comisiwn. Mae enghreifftiau rhyngwladol, y cyfeirir atynt yn adroddiadau'r Panel Arbenigol ar Ddarlledu ac adroddiadau'r Sefydliad Materion Cymreig, yn dangos ei bod yn bosibl datganoli, dosbarthu neu rannu cymwyseddau cyllido a rheoleiddio rhwng lefelau llywodraethau'r wladwriaeth ac is-wladwriaethol. Er mwyn i'r ddadl fod yn un wybodus, mae angen rhagor o waith technegol i ddeall goblygiadau'r llwybrau hyn yn llawn.

    - **Gwella datganoli** ee petai atebolrwydd dros ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei ddatganoli i'r Senedd, gallai hyn ganiatáu i Lywodraeth Cymru bennu natur a pharamedrau craffu ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai hyn yn cynnwys datgymalu neu hollti strwythurau rheoleiddio presennol, sy'n gymhleth ac yn cymryd ystyriaeth strategol fanwl, cyfranogiad gan nifer o randdeiliaid, ac amser a buddsoddiad gweinyddol.[7]Yn y model hwn, byddai cydweithio llawer cryfach rhwng llywodraethau a llais ystyrlon i Gymru yn y broses gwneud penderfyniadau yn hanfodol, hyd yn oed pe bai'r pŵer gwneud penderfyniadau terfynol yn parhau i gael ei gynnal ar lefel y DU.
    - Mewn **DU Ffederal,** gallai Cymru gael pŵer dros ddarlledu, ond dewis defnyddio ei phŵer i wneud penderfyniadau ar y cyd â gwledydd eraill y DU. Gallai hyn fod o fewn corff annibynnol gyda chynrychiolwyr cyfartal o'r pedair gwlad, sy'n atebol i gynrychiolwyr pedair deddfwrfa'r DU (fel yr argymhellwyd yn adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig). Fodd bynnag, byddai angen i'r gwledydd eraill gytuno ar hyn.
    - Gallai rhoi rheolaeth lawn dros ddarlledu i **Gymru annibynnol** wella'r ffordd mae newyddion a straeon am Gymru'n cael eu portreadu, gan sicrhau strategaeth gwasanaeth cyhoeddus gydlynol i Gymru, a thrwy hynny gryfhau democratiaeth. Fodd bynnag, byddai angen datgysylltu rheoleiddio cymhleth a heriau sylweddol mewn perthynas â threfniadau llywodraethu a strwythur y BBC a Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus preifat fel ITV. Ar hyn o bryd, mae Cymru'n un o fuddiolwyr net ffi'r drwydded a gallai'r opsiwn hwn hefyd arwain at ganlyniadau ariannol sylweddol.[8]

[7] Gweler adroddiad Darlledu'r Panel Arbenigol, t 29 ar fanteision a heriau.
[8] Gweler adroddiad Darlledu'r Panel Arbenigol, t 29 ar fanteision a heriau gwahanol lwybrau